# Cynnwys


Rhaglen 2

4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf 7

5 - Y Gwasanaeth Iechyd - Cwestinynau i'r Bwrdd Iechyd 12

6 - Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant 14

7 - Ymchwiliad Craffu o'r Ysbyty i'r Cartref 18

Atodiad 1 - Briff yr Ymchwiliad Craffu Gofal 19

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00 a.m. DYDD IAU, 2 HYDREF 2014**

**10.00 a.m. THURSDAY, 2 OCTOBER 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR DAFYDD ORWIG**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

**: GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

Dosbarthwyd: 24.09.14

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

# SERVICES SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH / MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr / Councillors

Huw Edwards
Chris Hughes
Elin Walker Jones
Liz Saville Roberts
Alan Jones Evans
Selwyn Griffiths
W. Tudor Owen
Ann Williams
Hefin Williams

### Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)

Alwyn Gruffydd
Peter Read
Dilwyn Lloyd

### Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

### Aelod Unigol / Individual Member (1)

Y Cynghorydd / Councillor Linda Ann Wyn Jones

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council – Y Cynghorwyr / Councillors Dewi Owen a / and Dilwyn Morgan

**AELODAU CYFETHOLEDIG / CO-OPTED MEMBERS:**

**Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig /**
**With a vote on education matters only**

Y Parchedig / Reverend Robert Townsend
Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales

Mrs Rita Price
Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church

Mr Dylan Davies
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd /
Representative for Meirionnydd Parent Governors

(Disgwyl am enwebiad / Awaiting Nomination)
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon /
Representative for Arfon Parent Governors

Ms Rhian Roberts
Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor /
Representative for Dwyfor Parent Governors

## Aelodau Eraill a Wahoddir / Other Members Invited:

## Holl Aelodau'r Cyngor ar gyfer Eitem 5 – Y Gwasanaeth Iechyd Lleol / All Members of the Council in respect of Item 5 – The Local Health Service

***Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir ar y rhaglen***

**R H A G L E N**

**1.** **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2.** **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3.** **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4.** **COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2014.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyn)**

**5.** **Y GWASANAETH IECHYD LLEOL** — 10.00 am – 11.00 am

***Aelod Cabinet – Y Cyng. R H Wyn Williams***

(a) I dderbyn cyflwyniad gan yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac i dderbyn ymateb i gwestiynau gan Aelodau unigol ar ei gyflwyniad.

(b) I dderbyn ymateb llafar gan yr Athro Trevor Purt i'r cwestiynau penodol a gyflwynwyd iddo gan Aelodau unigol.

(Copi'n amgaeedig – papur **gwyrdd**)

**6.** **ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD** — 11.00 am – 12.00

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg ar yr adolygiad i drawsnewid gwasanaethau a ddarparir i blant a phobl ifanc gyda anghenion addysgol ychwanegol.

(Copi'n amgaeedig – papur **melyn)**

7. **YMCHWILIAD CRAFFU GOFAL – O’R YSBYTY I’R CARTREF (RHAN 2)** 12.00 – 12.10 p.m.

I benodi Aelod i wasanaethu ar yr Ymchwiliad uchod.

(Copi o’r briff yn amgaeedig – papur **pinc)**

***Please note that the times noted below are estimates only***

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
# 19.06.14

**Yn bresennol**:

Y Cynghorwyr: Alwyn Gruffydd, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Peter Read, Dyfrig L. Siencyn, Ann Williams, Eirwyn Williams a Hefin Williams.

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais ar faterion addysg yn unig:** Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Undebau Athrawon:** Siôn Amlyn a Dilwyn Hughes.

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cyng. Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Y Cyng. R H Wyn Williams (Aelod Cabinet Gofal).

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Nicola Hughes (Swyddog Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Ysgolion Uwchradd), Eleri Llywelyn Owen (Rheolwr Prosiect Dros Dro), Gwenan Parry (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Gibbard (Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau), Ffion Johnstone (Swyddog Integreiddio a Thrawsffurfio Gwasanaethau), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Elin Walker Jones, Linda Ann Wyn Jones, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Lloyd, Liz Saville Roberts, Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig), Morwenna Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Cymerodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn y cyfle i ddiolch i'w gyd-aelodau, i'r Aelodau Cabinet Addysg a Gofal, a swyddogion am eu cefnogaeth iddo tra yn y Gadair yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Diolchodd yn arbennig i'r Is-Gadeirydd am ei gydwybodolrwydd a'i gefnogaeth o safbwynt ei wybodaeth arbenigol ym maes gofal

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd i'r Pwyllgor Craffu hwn am y flwyddyn 2014/15.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Beth Lawton yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Craffu hwn am y flwyddyn 2014/15.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2014.

## 5. ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

(a)Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn diweddaru'r Aelodau ynglŷn â'r adolygiad Anghenion Addysgol Arbennig a Chynhwysiad.

(b) Roedd yr adroddiad yn nodi amcan yr adolygiad, trefniadau ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid, arfer dda yn dilyn ymweliad â Chyngor Ceredigion, y camau nesaf sef i gyflwyno Achos Busnes terfynol i'r Cabinet Ffurfiol ddechrau Medi gyda 13 cynnig penodol sy'n gorgyffwrdd ac yn ddibynnol ar ei gilydd.

(c) Yn y drafodaeth, adroddwyd y materion a ganlyn mewn ymateb i gwestiynau aelodau:

(i) Byddir yn yn ail-strwythuro trefniadau staffio yn fewnol er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol drwy ystyried y math o sgiliau sydd gan y Tîm yn barod. Nodwyd bod yr Undebau Llafur yn ymwybodol o bwysigrwydd yr adolygiad ac fe fydd cyfle i drafod ymhellach ynglŷn â'r ail-strwythuro unwaith fydd yr argymhellion yn glir.

(ii) Mae plant hefo anghenion dwys wedi cynyddu gyda chyflyrau cymhleth iawn a rhaid sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth addysgol gorau.

(iii) Mae Papur Gwyn y Llywodraeth yn son am symud i ffwrdd o roi datganiadau i ddisgyblion a symud i gyflwyno cytundeb ffurfiol rhwng y rhiant / plentyn a'r ysgol i sicrhau bod yr ymyrraeth ddigon clir ar gyfer datblygiad y plentyn.

(iv) Mae angen rhoi mwy o sylw i'r effaith ar y gwasanaeth o safbwynt derbyn disgyblion all-sirol i Wynedd. Nodwyd y bydd y Ganolfan Rhagoriaeth arfaethedig a leolir ym Mhenrhyndeudraeth yn cynnig darpariaeth o safon uchel yn yr iaith Gymraeg gan gynnwys llefydd preswyl. Fel rhan o'r cynllun busnes byddai modd denu disgyblion all-sirol cyfagos i'r Ganolfan i fedru derbyn addysg Gymraeg pe dymunent. Sicrhawyd nad oes unrhyw fygythiad i weithlu Ysgol Hafod Lon gan y bydd cyllideb yr ysgol yn trosglwyddo i'r Ganolfan newydd.

(v) Mae'n gynamserol cyflwyno'r cynigion manwl ar hyn o bryd gan fod y gwaith yn parhau i esblygu ond sicrhawyd bod trafodaethau wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a thrafod rheolaidd gyda Grŵp Ffocws o Benaethiaid. Bwriedir cyflwyno'r cynigion sydd o fewn y papur Gwyn i'r Cabinet ym mis Medi eleni a rhagwelir gweithredu elfen o'r newidiadau sef ail-strwythuro'r gwasanaeth o fewn y cynllun erbyn Medi 2015.

(vi) Mae datganiadau yn diogelu hawliau plentyn roedd y Papur Gwyn yn sicrhau i'r ddarpariaeth ymdrin â buddiannau pob plentyn o fewn continwwm anghenion addysgol arbennig.

(vii) Oddeutu 80 - 100 o blant oedd yn cael sylw penodol yn r hen ganolfannau ond ar ôl newid y gyfundrefn i'r Tim Gwybyddiaeth a Dysgu fynd o amgylch gwahanol ysgolion, roedd cyfle i gyfeirio llawer iawn mwy o blant i dderbyn sylw.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gyflwyno adroddiad ar y cynigion i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwn yn dilyn eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi / Hydref 2014.**

**6. (i) DATBLYGIAD Y PROSIECT HYRWYDDO ANSAWDD YN YR YSGOLION UWCHRADD**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Prosiect Ansawdd Addysg ar ddatblygiad y prosiect yn yr ysgolion uwchradd.

(b) Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion a ganlyn:

(i) Iaith Gymraeg – sicrhawyd bod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y byrddau arholi sydd yn cael eu defnyddio yng Ngwynedd.

(ii) Presenoldeb athrawon a phrinder athrawon llanw Mathemateg - o ganlyniad, ystyriwyd problemau recriwtio athrawon Mathemateg sydd yn medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Croesawyd y cyd-weithio â phrifysgol Bangor a syniadau arloesol am gefnogi eu hyfforddiant ac awgrymwyd cyswllt ar hyn gyda Choleg Cymraeg Cenedlaethol.

(iii) Y cyswllt rhwng deilliannau diwedd CA2 a graddau TGAU yn y pynciau craidd. Nodwyd bod angen rhoi sylw i bontio rhwng y cynradd a'r uwchradd gan edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn dalgylchoedd gwahanol. Nodwyd hefyd bod cynllun cydweithio ysgol-i-ysgol yn mynd rhagddo sy'n edrych ar feysydd penodol ac yn ran o ddiwylliant o rannu arferion da.

(iv) Pwysigrwydd i adnabod ysgolion cyn iddynt fynd i fesurau arbennig. Nodwyd bod Arweinyddion Sustem GwE yn edrych ar ganlyniadau haf diwethaf ac wedi sicrhau cynlluniau cynhwysfawr mewn lle i godi safonau. Nodwyd bod rhagolygon gwella ar gyfer 5 ysgol uwchradd benodol yn dda a'u canlyniadau tebygol yn uwch na beth oedd canlyniadau llynedd.

(v) Diffinio ac adnabod rôl yr awdurdod – nodwyd bod rôl i'r awdurdod osod y ddelfryd gywir – dylid ystyried lles pob un o'r plant a pheidio colli golwg ar hyn.

(vi) Cefnogaeth i Lywodraethwyr – nodwyd gwahaniaeth barn ar effeithlonrwydd y drefn ond datganodd y Pennaeth Addysg bod arferion da yn cael eu rhannu gydag ysgolion. Cyfeiriwyd ymhellach at gynllun peilot yn nalgylch y Moelwyn lle mae Pennaeth yr Uwchradd yn gweithredu fel Arweinydd Strategol dros y sector cynradd a'r uwchradd ac un o'i ddyletswyddau fydd cydweithio gyda phob Cadeirydd Corff Llywodraethol ysgolion y dalgylch.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad interim.**

**(b) Rhaglennu o fewn Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu hwn i'r Gwasanaeth Addysg gyflwyno Cynllun Gweithredu ar ddatblygiad argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg.**

**(ii) ARHOLIADAU TGAU Saesneg – Ionawr 2014**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Addysg ynglŷn â thanberfformiad yn arholiadau TGAU Saesneg ym mis Ionawr eleni.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7. ADRODDIAD AR BROSIECT ÔL-OFAL "PAN DWI'N BAROD"**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Gofal ar gynllun gadael gofal a elwir “Pan Dwi’n Barod”.

(b) Gosododd yr Aelod Cabinet Gofal y cyd-destun drwy nodi bod y cynllun yn rhan o beilot Llywodraeth Cymru fel rhan allweddol o Bil Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfeiriwyd yn benodol at weithgareddau’r Cyngor fel rhan o’r cynllun. Cost y cynllun i’r Gwasanaeth yn 2013-14 ydoedd £47,000 i gefnogi 7 person ifanc gyda’r gost yn debygol o gynyddu i £90,000 ar gyfer 2014-15.

(c)Yn y drafodaeth, ystyriwyd y materion canlynol:

(i) Mae’ r cynllun wedi cynnig sefydlogrwydd i bobl ifanc a thrwy hyn yn eu harwain i waith / hyfforddiant. Cydnabuwyd bod diffyg darpariaeth yn allanol i bobl ifanc sydd yn gadael gartref megis diffyg tai, a.y.b.

(ii) Mae gan y Gwasanaeth fframwaith o ran deilliannau gyda chyfres o ddangosyddion wedi eu llunio. Dysgwyd llawer gan y Siroedd eraill ac fe wêl y Gwasanaeth y cynllun yn un cadarnhaol a phositif.

(iii) Adborth y bobl ifanc – nodwyd bod sesiynau o drafodaethau am 2 awr gyda’r bobl ifanc lle mae modd iddynt fod yn agored iawn eu barn. Cymysgedd fu’r adborth ond yn gyffredinol roeddynt yn ystyried y cynllun yn dda. Ceir hefyd trafodaethau gyda’r Gofalwyr Maeth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD YR YMCHWILIAD CRAFFU GOFAL

Cymerwyd y Gadair gan yr Is-gadeirydd i alluogi’r Cadeirydd i ymateb i ymholiadau yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yr Ymchwiliad Craffu Gofal.

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu ar drefniadau rhyddhau a throsglwyddo cleifion o’r ysbyty i’r cartref gyda chais i’r Aelod Cabinet Gofal yn deillio o ganlyniadau’r ymchwiliad ymateb i’r argymhellion isod:

- wirio fod *Discharge Protocol* Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi ei adolygu ac yn gyson â threfniadau gweithredol Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn y gymuned

- ofyn i’r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gytuno ar brotocol rhyddhau o’r ysbyty a threfniadau ymarferol i’w Weithredu

- adolygu trefniadau cydweithio a chyfathrebu rhwng y timau hynny sy’n hwyluso rhyddhau a throsglwyddo o’r ysbyty a’r asiantaethau hynny sy’n cynnig cefnogaeth yn y gymuned er mwyn adnabod cyfleoedd i wella’r gwasanaeth i gleifion gan edrych ar ymarfer dda mewn ardaloedd eraill

- adolygu’r gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo 7 diwrnod sydd wedi ei gynnig dros dro yn Ysbyty Gwynedd ac ystyried unrhyw faterion perthnasol wrth ddatblygu gwasanaeth tebyg o fewn y Prosiect Gofal Canolraddol yn yr un maes

- adrodd yn ôl i’r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y Prosiect Gofal Canolraddol sy’n gyfwerth â gwariant o £1.3 miliwn

- bwyso am welliannau i’r Lolfa Drosglwyddo gan ei gwneud yn ystafell gyfforddus a phwrpasol sy’n cynnwys cyfleusterau newid a symud y toiledau anabl yn agosach at y Lolfa er hwylustod

- ofyn i BIPBC am ddiweddariad ar eu cynlluniau i weithredu ‘Mwy na Geiriau’

- ddatblygu ffyrdd o gasglu bodlonrwydd cleifion hŷn ar y gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo er mwyn sicrhau bod ganddynt lais yn y broses o ddatblygu’r gwasanaeth ymhellach a gwella’r ddarpariaeth

(b) Pwysleisiodd Aelod y pwynt a adnabuwyd gan yr Ymchwiliad, sef nad oedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gweithredu protocol gwasanaeth rhyddhau a throsglwyddo ac nad oedd canran o drigolion De Gwynedd sy’n cael eu cyfeirio i Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ac Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin yn derbyn yr un manteision.

(c) Derbyniodd yr Aelod Cabinet Gofal holl argymhellion yr Ymchwiliad gan nodi y bwriedir symud ymlaen gyda chynllun gweithredu.

(ch) Croesawyd Ffion Johnstone sydd wedi ei phenodi ar secondiad fel Swyddog Integreiddio a Thrawsffurfio Gwasanaethau i’r cyfarfod. Adroddwyd ganddi ar y Grant Gofal Canolraddol o £1.3m arian refeniw a £600,000 arian cyfalaf sydd i’w wario erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Rhoddwyd braslun ganddi o’r materion fydd yn cael sylw:

- Gwella cyfathrebu
- Cyd-leoli swyddfeydd er galluogi Timau i ddod at ei gilydd
- Gweithio 7 diwrnod amlasiantaethol
- Mynediad i ddarpariaeth gofal
- Adolygu trefniadau cymorth i ofalwyr
- Gofal Dementia
- Fferyllwyr yn mynd allan i gartrefi / cartrefi preswyl
- Edrych ar gynnydd mewn gwelyau ysbaid
- Rhaglen sustem “My Life” i arwain pobl i gyfleusterau

(d) Nodwyd yr angen i dderbyn adroddiad yn ôl i gyfarfod paratoi o’r Pwyllgor o ddefnydd o’r grant.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Cymeradwyo argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Gofal i’r Aelod Cabinet Gofal fel amlinellir yn (a) uchod a gofyn iddo gyflwyno cynllun gweithredu mewn ymateb i hynny.**

**CADEIRYDD.**

Cwestiynau i'r Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 2 Hydref 2014.

A PERFFORMIAD

1 Cyng Steve Churchman
Pam bod y *Bwrdd Iechyd* yn gosod cleifion allanol ar restr aros ar gyfer rhestr aros? Hynny yw, pam bod cleifion yn derbyn llythyr i ofyn iddynt ffonio ymhen hyn a hyn o wythnosau i wneud apwyntiad?

2 Ydi aros am dair awr ar gyfer *brysbennu* (triage) yn dderbyniol? (O ystyried mai pwrpas *brysbennu* (triage) yw sortio'r bobl efo anafiadau oddi wrth bobl sy'n marw.)

3 Cyng Liz Saville Roberts

Mae pryderon ynghylch y gwasanaeth mae cleifion brys yn derbyn gan y Gwasanaeth Ambiwlans yng Ngwynedd, ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a gyda'r nos pan na fydd yr Ambiwlans Awyr yn gallu hedfan. Mae nifer y galwadau argyfwng yn cynyddu (667 Gorffennaf 2014;662 Gorffennaf 2012) tra bod canran yr achosion lle mae'r gwasanaeth yn cyrraedd o fewn 8 munud yn disgyn (56.7% Gorffennaf 2014; 59.4% Gorffennaf 2012).

O ystyried mai ansawdd gwasanaethau i'r claf ddylai fod yn flaenoriaeth, sut gallai'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Ambiwlans gydweithio i wella cyflymder ac ansawdd gwasanaeth galwadau brys?

4 Cyng Alwyn Gruffydd
Pam y cynghorwyd claf mai'r ffordd orau iddo dderbyn triniaeth oedd aros yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau ychwanegol, gan y byddai'r amser aros ar gyfer ei driniaeth unwaith y byddai'n mynd adref yn sylweddol hirach?

B IAITH

5 Cyng Alwyn Gruffydd
Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwireddu ei bolisi iaith i gyfarch anghenion iaith cleifion sy'n siarad Cymraeg?

C PARTNERIAETH

6 Cyng Beth Lawton
Sut ydach chi am ennill hyder pobl Gwynedd yn ôl?

7 Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer ysbytai bach?

8 Cyng Mandy Williams-Davies
Gyda datblygiadau yn y maes iechyd yn ein galluogi ni i fyw yn hŷn, mae'r galw am ofal ar sawl lefel yn cynyddu a pherthynas rhwng Cynghorau, Byrddau Iechyd a'r Llywodraeth

yn angenrheidiol. Pwy yn eich barn chi ddylai arwain a chydlynu'r berthynas yma i ddarparu'r gofal gorau?

9 Bethan Russell Williams (Prif Swyddog Mantell Gwynedd)
Yn sgil y pwysigrwydd cynyddol a osodir ar weithgareddau ataliol, a oes unrhyw fwriad gan y Bwrdd Iechyd i fuddsoddi yn yr agenda ataliol yn y dyfodol?

10 Bethan Russell Williams
Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld cyfraniad y Trydydd Sector o ran darparu gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru yn y blynyddoedd i ddod?

11 Bethan Russell Williams
Prif bryder mudiadau'r Trydydd Sector sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda'r Bwrdd Iechyd yw diffyg unrhyw sicrwydd tymor hir o safbwynt ariannu. A oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynigion i ddarparu sicrwydd tymor hir i'r Trydydd Sector a fydd yn caniatáu cynllunio tymor hir go iawn

## CH RECRIWTIO

12 Cyng Eryl Jones-Williams
Mae diffyg meddygon mewn ardaloedd gwledig yn sefyllfa argyfyngus mewn rhai ardaloedd gwledig (ac yn arbennig yn ardaloedd Abersoch, Blaenau Ffestiniog, Abermaw a Dolgellau ar hyn o bryd). Gallai hyn gael effaith negyddol ar ofal yn y gymuned a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Wasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd.

- Yn eich barn chi, beth yw effaith prinder meddygon ar y gwasanaeth?
- Sut fyddwch chi'n delio gyda hyn?

13 Cyng Alun Mummery (Cyngor Sir Ynys Môn)
Pa gamau mae'r Bwrdd yn eu cymryd i recriwtio doctoriaid a nyrsys i weithio yng ngogledd Cymru, ac oes digon yn cael ei wneud i recriwtio pobl ifanc lleol i'r proffesiwn meddygol?

14 Cyng Alun Mummery (Cyngor Sir Ynys Môn)
A yw'r broses recriwtio bresennol yn cadw i fyny â llenwi swyddi gwag doctoriaid a nyrsio yn y dyfodol ac yn y presennol?

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 2 Hydref, 2014 |
| **TEITL YR EITEM** | Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |
| **AWDUR** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |

**1. DATGANIADAU**

1.1. Mae'r aelodau yn ymwybodol o bwyntiau sydd wedi eu gwneud yn y gorffennol am symud oddi wrth y drefn datganiadau - symudiad sydd bellach, wrth gwrs, wedi ei grybwyll yn Genedlaethol. Mae'r aelodau yn awyddus i wyntyllu sut y mae'r drefn arfaethedig newydd am gyfarch anghenion disgyblion gystal, os nad yn well, na'r drefn datganiadau. Yr her yw, os yw datganiad yn grynhoad statudol o wir anghenion disgybl, sut y mae trefn wahanol yn mynd i gyfarch yr anghenion hynny. Mae'n deg nodi bod rhai aelodau yn amheus am ddoethineb symud oddi wrth drefn datganiadau a lleihau'r galw am ddatganiadau fel amcan i'r prosiect.

1.2. Mae'r drefn arfaethedig a gynigir yn yr Adolygiad yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gofynion statudol a amlinellir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru - Mai 22 '*Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol*.'

1.3. Bydd symud o'r drefn gyfredol o lunio datganiad i'r drefn newydd o gyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn sicrhau proses fwy integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio, monitro a hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol.

1.4. Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol barhau i fod yn gyfrifol am ansawdd, cynnwys a'r ddarpariaeth drwy'r CDU newydd, ac yn unol â'r drefn gyfredol, bydd yn ofynnol i'r CDU cael ei adolygu bob 12 mis o leiaf.

1.5. Bydd y ddeddfwriaeth yn gorfodi Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau Addysg Bellach i gydweithredu a rhannu gwybodaeth wrth asesu, cynllunio a chyflawni'r ddarpariaeth.

1.6. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen sy'n arwain at sicrhau darpariaeth amlasiantaethol orau posib i fodloni anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc 0-25oed. Cyfyngir y datganiadau cyfredol i unigolion sydd ag anawsterau sylweddol, dwys a chymhleth . Bydd y drefn o ddarparu CDU newydd yn ymestyn i gynnwys pob unigolyn ag anawsterau dysgu unigol o'r rhai hynny ag anawsterau cymedrol ymlaen . Mae'r hawliau statudol hefyd yn ymestyn i gynnwys hawliau i apelio i Dribiwnlys AAA i bob unigolyn ag anawsterau dysgu ychwanegol.

**2. OEDI**

2.1. Mae nifer o enghreifftiau o oedi mewn gweithredu o dan y gyfundrefn bresennol gyda rhai misoedd yn pasio ar ôl adnabod materion cyn bod asesiad o anghenion yn cael ei gwblhau, ac oedi pellach cyn bod gweithredu a chefnogaeth yn cael ei ddarparu.

2.2. Bydd y drefn newydd yn sicrhau ymyrraeth buan ac effeithiol a hynny o ymateb i gynigion lleol a chenedlaethol.

2.3. Un o brif gynigion yr Adolygiad Strategol yw dwysau'r ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar. Drwy'r cydweithrediad aml-asiantaethol bydd y ddarpariaeth yn cyrraedd y plentyn ynghynt, a bydd y ddarpariaeth hwnnw yn gwbl integredig.

2.4. Yn gyfredol mae cyflwyno datganiad yn cymryd amser - hyd at 26 wythnos o gyflwyno'r cais gwreiddiol am asesiad statudol. Rhagwelir y bydd y drefn asesu a chynllunio darpariaeth yn llawer cynt gyda'r ddarpariaeth yn cyrraedd yr unigolyn a fewn cyfnod llawer tynnach (rhwng 3 a 6 wythnos).

**3. CEFNOGAETH AC ARBENIGEDD**

3.1. Mae'r aelodau yn ymwybodol o broblemau ar hyn o bryd o ran y gefnogaeth ac arbenigedd sydd ar gael i gefnogi ysgolion wrth iddynt geisio dygymod ag anghenion dysgu arbennig. A oes sicrwydd o welliant yn hyn o beth yn y gyfundrefn newydd? Bydd yr aelodau yn chwilio am sicrwydd y bydd y drefn newydd yn delio a'r oedi hynny ac yn cyflymu'r ymateb i sefyllfaoedd o angen

3.2. Un o gynigion yr Adolygiad yw ail strwythuro'r Gwasanaeth. Mae'r adolygiad yn cynnig model lle gwelir strwythur newydd canolog llawer mwy sgilgar fydd yn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y Sir ac yn gallu sicrhau ymyrraeth fuan pan yn angenrheidiol, yn llawer cynt ac yn fwy effeithiol.

3.3. Bydd y strwythur yn cynnwys:

- Uwch Reolwr/Arweinydd Seicolegol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Addysg;
- Swyddog Cynhwysiad;
- Tîm o Weithwyr Allweddol;
- Athrawon arbenigol;
- Uwch gymorthyddion;
- Byddwn hefyd yn datgloi potensial Ysgolion Arbennig Gwynedd i fod yn rhan o'r strwythur yma.

**4. NEWIDIADAU I'R TREFNIADAU PRESENNOL**

4.1. Rydym yn rhagweld cynnig newidiadau i'r trefniadau presennol yn y meysydd canlynol:

- Monitro ac adolygu;
- Blynyddoedd cynnar;
- Trefniadau darpariaeth – symud i ffwrdd oddi wrth ddatganiadau i gyflwyno CDU i bob disgybl efo ADY;
- Strwythur y gweithlu;
- Ysgolion Arbennig;
- Comisiynu'r CBAAA;
- Fformiwla trosglwyddo cyllideb ADY i'r ysgolion;
- Adolygu gwasanaethau penodol (cynnal ymddygiad ac unedau ABC);
- Gwella cyfathrebu;
- Systemau tracio a data;
- Rhaglen hyfforddiant.

**5. YMGYSYLLTU**

*Faint o ymgysylltu sydd wedi bod ynglŷn â'r newidiadau hynny a pa fath o negeseuon sydd wedi bod yn dod yn ôl gan y budd-ddeiliaid allweddol?*

5.1. Cynhaliwyd sgyrsiau a sesiynau trafod gyda defnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr y gwasanaeth drwy gydol yr Adolygiad. Cafwyd cefnogaeth unfrydol o'r cychwyn i'r achos dros newid. Yn yr ymgysylltu atgyfnerthwyd ein prif ganfyddiadau dro ar ôl tro ac amlygwyd rhai meysydd nad oedd wedi cael digon o sylw.

5.2. Ymgysylltwyd â'r canlynol yn ystod y broses:

- **Gweithdy** i drafod **Gweddnewid Gwasanaethau i Blant Bregus Gwynedd** ym mis Medi 2013 - yn agos i 30 o gyfranogwyr/fudd-ddeiliaid traws sector yn bresennol, gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, penaethiaid a rhieni;
- **Ymwelwyd â sampl o 16 ysgol** i drafod y sefyllfa gyfredol yng nghyd-destun eu darpariaeth ADY efo'r pennaeth a'r cydlynydd;
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu torfol efo Penaethiaid, athrawon a chymorthyddion yn ystod yr Adolygiad;
- Gwahoddwyd holl benaethiaid ysgolion y Sir a'r Seicolegwyr Addysg i gyfarfodydd torfol i drafod cynigion yr Adolygiad a'r ddeddfwriaeth newydd;
- Cynhaliwyd fforymau arbennig i holl **Gydlynwyr ADY** yr ysgolion;
- Cynhaliwyd sesiynau penodol efo grŵp cyswllt aml-asiantaethol ac efo gweithlu canolog ADY yr awdurdod;
- Anfonwyd manylion **holiadur ar lein at yr holl weithlu cymorthyddion** i ganfod mwy o wybodaeth am sefyllfa gwaith y Cymorthyddion ADY;
- Ffurfiwyd **Grŵp Newid Diwylliant** oedd yn cynnwys ystod o benaethiaid cynradd ac uwchradd a fu'n cyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2014 i drafod cynigion yr adolygiad;
- Yn ystod Haf 20014, mewn cyd weithrediad efo SNAP cafodd rhieni'r holl ddisgyblion sydd ar gofrestr ADY yr ysgolion gyfle i gwblhau holiadur ar lein. Bydd ymgynghoriad pellach efo grŵp o rieni mwy bregus a dau grŵp o ddisgyblion ysgol uwchradd yn cael eu cynnal yn gynnar ym Medi. Yn anffodus canran bychan iawn wnaeth ymateb ond roedd y canlyniadau yn arwyddocaol;
- Trefnwyd ymweliad â Chyngor Ceredigion yn dilyn cyhoeddi eu hadroddiad Rhagorol gan Estyn;
- Cynhaliwyd cyfarfod efo swyddog penodol o Lywodraeth Cymru i drafod cynigion deddfwriaethol newydd yn y Papur Gwyn;
- Byddwn yn ymgysylltu ar lefel uchel efo'r Gwasanaeth Iechyd, Cyngor Ynys Môn a'r Cydbwyllgor Anghenion Addysg Arbennig yn ystod mis Medi 2014.

5.3. Canfyddiadau:

- Angen codi statws y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol fel gwasanaeth a darpariaeth hanfodol o fewn Cyngor Gwynedd;
- Angen adnabod swydd person dynodedig fel gweithiwr allweddol addysg i gefnogi gweithdrefnau dalgylchol a'r ysgolion, rhieni, plant a phobl ifanc Gwynedd;
- Angen sicrhau datblygiad proffesiynol ar gyfer Cymorthyddion;
- Angen gwella'r ddealltwriaeth o gyfrifoldebau Cymorthyddion ADY gan yr holl weithlu sy'n darparu'r gwasanaeth;
- Ysgolion angen arweiniad o ran penderfynu ar yr anghenion a'r ddarpariaeth;

- Nifer uchel o rieni heb dderbyn unrhyw wybodaeth am y cymorth ychwanegol mae eu plant yn ei dderbyn a 31% ddim yn glir pa fath o gymorth maent yn ei dderbyn;
- Nifer uchel o rieni unai ddim yn gwybod neu yn nodi fod eu plant heb Gynllun Addysg Unigol (CAU) - a dim ond hanner y rhieni a ymatebodd i'r holiadur oedd wedi bod yn rhan o gynllunio CAU eu plentyn;
- Y Llywodraeth yn hapus efo egwyddorion y Cynigion ar gyfer yr Adolygiad yma;
- Angen llawer mwy o eglurder gan y Llywodraeth o ran y Cod Ymarfer newydd a gweithrediad y ddeddfwriaeth newydd;
- System tracio / data hynod effeithiol yng Ngheredigion – yn greiddiol i allu mesur a monitro effeithlonrwydd y gwasanaeth;

**6. Beth sydd yn gyrru'r newidiadau – arbedion ariannol neu welliant yn y gwasanaeth?**

6.1. Yr achos dros newid: Mae canfyddiadau'r ymgysylltu; yr angen i sicrhau gwelliant yn y gwasanaeth yn ogystal â dyfodiad deddfwriaeth newydd i gyd yn gyrru'r newidiadau. Fodd bynnag, yn naturiol mae angen sicrhau fod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon ac ni fydd unrhyw arian parhaol ychwanegol yn cael ei ryddhau ar gyfer y newidiadau.

**7. Ym mha ffordd fydd y cynigion sydd yn cael eu datblygu yn debyg o wella cydweithio rhwng asiantaethau er mwyn torri lawr ar yr elfennau biwrocrataidd yn y drefn bresennol?**

7.1. Eisoes wedi cychwyn trafodaethau efo Iechyd, ac yn bwriadu atgyfodi grŵp cyswllt aml-asiantaethol i gyd weithio'n benodol ar ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol ynghyd a'r prosesau cysylltiedig i gyd fynd efo gofynion y ddeddfwriaeth.

7.2. Bydd rôl y Gweithwyr Allweddol newydd yn cynnwys cyfrifoldebau penodol dros hyrwyddo'r cydweithio rhwng asiantaethau i leihau dyblygu gwaith, a chyflymu'r prosesau i sicrhau darpariaeth briodol i'r disgyblion - yn ogystal â chefnogaeth i'r disgybl a'r teuluoedd.

**8. Sut fydd unrhyw drefniadau newydd yn debyg o ddelio yn well gyda phlant sydd yn symud i mewn i'r ardal gydag anghenion penodol?**

8.1. Bydd y trefniadau newydd yn golygu bydd posib adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yma yn gynt, ac yn aml-asiantaethol efo'r rhieni - heb orfod cydymffurfio i ofynion penderfyniad ALl arall am gyfnod penodol.

8.2. Oherwydd y pwyslais ar ryddhau potensial yr ysgolion arbennig bydd posib ymateb i'r anghenion penodol yn gynt gan y byddwn efo ystod uwch o arbenigeddau oddi fewn i'r gweithlu o ganlyniad i'r buddsoddiad mewn hyfforddiant.

**9. Beth yw'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflwyno'r cynigion?**

9.1. Y bwriad oedd cyflwyno'r cynigion i Gabinet cyntaf Hydref. Oherwydd yr angen am waith manwl pellach ar y Cynllun Busnes, ni fyddwn yn eu cyflwyno hyd fis Rhagfyr. 'Rydym fodd bynnag yn parhau i weithio ar gynlluniau manwl ar gyfer y cynigion ac nid yw hyn wedi achosi unrhyw oediad o ran amseriad gweithredu'r trawsnewid.

9.2. 'Rydym yn parhau efo'r bwriad i fod yn weithredol efo rhai o'r cynigion erbyn Medi 2015.

9.3. Oherwydd yr oediad yma, nid yw'r cynigion yn aeddfed i'w cyflwyno yn eu cyfanrwydd i'r Pwyllgor ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **2 Hydref 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ymchwiliad Craffu O'r Ysbyty i'r Cartref RHAN 2** |
| **CADEIRYDD YR YMCHWILIAD** | **Cyng. Peter Read** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. RH Wyn Williams** |
| | |

Pwrpas yr Adroddiad

1 Cyflwynir yma y Brîff ar gyfer Rhan 2 yr Ymchwiliad am sylwadau.

2 Gofynnir i'r aelodau ystyried penodi aelod arall i ymuno â'r Ymchwiliad.

**Ymchwiliad Craffu Gofal RHAN 2**

| | |
|---|---|
| **CYFEIRNOD** | YMCH 7 |
| **GRŴP AELODAU ARWEINIOL** | Cyng. Peter Read<br>Cyng. Huw Edwards<br><br>Cyng. Eryl Jones-Williams<br>Cyng. Linda Ann Wyn Jones<br>Cyng. Ann Williams |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | Gareth James |
| **SWYDDOG YMCHWIL** | Sioned Thomas |
| **CEFNOGAETH A GWEINYDDIAETH** | Bethan Adams |
| **FERSIWN** | Fersiwn 0.5 |

**1. Teitl yr Ymchwiliad: O'r Ysbyty i'r Cartref RHAN 2 (Yn y gymuned/Adref)**

Pa mor addas ac effeithiol yw trefniadau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid ar gyfer cefnogi pobl hŷn i ddychwelyd adref neu i'r gymuned yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty?

**2. Cefndir:**

Mae gan bob sefydliad iechyd drefniadau mewn lle ar gyfer cynllunio'r modd caiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty. Prif nod y trefniadau hyn yw lleihau cyfnod sydd rhaid i gleifion dreulio yn yr ysbyty, lleihau'r posibilrwydd y bydd cleifion yn dychwelyd i'r ysbyty mewn modd heb ei gynllunio a gwella'r modd caiff gwasanaethau eu cydlynu a'u darparu i gleifion pan fyddant wedi dychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

Ond, mae gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau bryderon am addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yng Ngwynedd. Mae pryderon Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn seiliedig ar brofiadau rhai o'u hetholwyr o gael eu rhyddhau o'r ysbyty heb y gefnogaeth gofal a'r rhwydweithiau cymdeithasol priodol mewn lle pan fyddent wedi dychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

**3. Pwrpas yr Ymchwiliad:**

Bydd yr ymchwiliad yn ystyried pa mor addas ac effeithiol yw trefniadau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i bartneriaid ar gyfer rhyddhau cleifion hŷn o'r ysbyty a'u cefnogi i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr ymchwiliad yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rhyddhau o safbwynt sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion hŷn, gan adnabod ac amlygu arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.

- Addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor o ran asesu, cynllunio a darparu gofal integredig a phriodol i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

- Rôl mudiadau Trydydd Sector o safbwynt cefnogi cleifion hŷn i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

- Adnabod enghreifftiau o arferion da o ardaloedd eraill ac amlygu'r rhai y gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd / Gogledd Cymru.

- Llunio cyfres o argymhellion gwella i'w cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwynedd a mudiadau Trydydd Sector er mwyn ymateb i brif ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwiliad.

**4. Methodoleg:**

- Cyfweld swyddogion allweddol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd ynglŷn â:

    - Pholisi a threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer asesu anghenion cleifion hŷn a'u rhyddhau o'r ysbyty.
    - Pholisi a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cefnogi cleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.
    - Threfniadau'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gyfer cydweithio i gefnogi cleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

- Cyfweld cynrychiolwyr o fudiadau Trydydd Sector ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir ganddynt i gleifion hŷn sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

- Cyfweld sampl o gleifion hŷn a'u teuluoedd neu ofalwyr ynglŷn â'u profiadau o gael eu rhyddhau o'r ysbyty a'u cefnogi i ddychwelyd adref neu i fyw yn y gymuned.

- Cyfweld cynrychiolwyr o fudiadau perthnasol eraill sydd yn gysylltiedig â'r maes e.e. Cyngor Iechyd Cymuned, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Darparwyr Gofal Annibynnol.

- Ystyried a dadansoddi data a gwybodaeth perfformiad perthnasol.

- Ymchwilio i enghreifftiau o arfer dda o ardaloedd eraill er mwyn adnabod pa arferion gellir eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith yng Ngwynedd neu ar draws y rhanbarth.

**6. Cyfnod yr Ymchwiliad:**

Rhan 1

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | Medi 2013 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | Mai 2014 |
| Adrodd i'r Pwyllgor Craffu | Mehefin 2014 |

Rhan 2

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | Hydref 2014 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | Tachwedd 2014 |

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r Pwyllgor Craffu | Rhagfyr 2014 |

**7. Rhaglen Waith Amlinellol RHAN 2:**

Cyflwynir isod Rhaglen Waith amlinellol ar gyfer cwblhau'r Ymchwiliad Craffu:

| Tasg / Gweithgaredd | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Cadarnhau Brîff Rhan 2, sgôp a rhaglen waith yr Ymchwiliad Craffu a pharatoi ar gyfer y cyfweliadau gyda thystion allweddol. | Hydref 2014 |
| Cynnal cyfweliadau gyda thystion | Hydref 2014 |
| Ystyried, dadansoddi a chrynhoi'r holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn adnabod themâu fel sail ar gyfer llunio casgliadau. | Tachwedd 2014 |
| Llunio a chytuno'r prif argymhellion. | Tachwedd 2014 |
| Paratoi'r adroddiad drafft. | Tachwedd 2014 |
| Cyflwyno'r adroddiad drafft i sylw'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er ystyriaeth. | Rhagfyr 2014 |
| Cyflwyno'r adroddiad terfynol i sylw'r Aelod Cabinet perthnasol er ystyriaeth. | Rhagfyr 2014 |

Bydd hon yn Rhaglen Waith a fydd yn cael ei ddiweddaru a'i haddasu yn ôl yr angen. Yn ogystal, bydd gofyn i Aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd.